



**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

# **Cynllun Cydraddoldeb Strategol Adroddiad Blynyddol 2014-15**

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad	2 – 3
2.	Adnabod a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol	3 - 5
3.	Defnyddio'r wybodaeth i gwrdd â'r Dyletswyddau Cyffredinol a'r rhai Penodol i Gymru	5 – 6
4.	Beth a Gyflawnwyd	6 – 12
5.	Asesiadau Effaith Cydraddoldeb	13 – 15
6.	Gwybodaeth Cyflogaeth	16 – 18

## 1. Cyflwyniad

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi cyflwyno dyletswydd gyffredinol newydd ar y sector cyhoeddus. Mae'n ofynnol ar awdurdodau cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r angen i:

1. Cael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y ddeddf.
2. Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ymysg pobl sy'n meddu ar un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu a'r rhai nad ydynt.
3. Meithrin perthynas dda ymysg pobl sy'n meddu ar un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu a'r rhai nad ydynt.

### Pwy a ddiogelir o dan y Ddeddf?

Mae'r ddeddf yn cyflwyno rhestr newydd o nodweddion sydd i'w diogelu yn lle amryw agweddau cydraddoldeb. Mae'r carfanau hynny i'w diogelu trwy gyfrwng dyletswydd gyffredinol a dyletswyddau penodol y ddeddf.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn ymwneud â'r nodweddion isod:

- Oedran
- Newid rhyw
- Rhyw
- Tras – gan gynnwys tarddiad ethnig / cenedlaethol, lliw a chenedl
- Anableddau
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Tueddfryd rhywiol
- Crefydd neu gred

Mae'n ymwneud â phriodasau a phartneriaethau sifil hefyd, ond dim ond ynglŷn â rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i gael gwared ar anffafiaeth.

### Dyletswyddau Penodol

Yn ychwanegol i'r ddyletswydd gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dyletswyddau penodol i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r dyletswyddau penodol hyn wedi cael eu hamlinellu yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) Rheoliadau 2011.

Mae'r dyletswyddau penodol yng Nghymru yn ymdrin â:

- Amcanion
- Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Ymgysylltu
- Asesu effaith
- Gwybodaeth am gydraddoldeb
- Gwybodaeth am gyflogaeth

- Gwahaniaethau tâl
- Hyfforddiant staff
- Pwrcasu
- Adrodd blynyddol
- Cyhoeddi
- Adroddiad Gweinidog Cymru
- Adolygu
- Hygyrchedd

Fe ddaeth y dyletswydd gyffredinol yn ogystal â'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol i Gymru i rym ar 6 Ebrill 2011. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi gwybod am y cynnydd a wnaeth yr Awdurdod o ran cydymffurfio â'r gofynion statudol hyn.

## **2. Adnabod a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol**

### Gwybodaeth Ystadegol

Mae'r Awdurdod wedi cyhoeddi data cyfrifiad 2011 ar gyfer trigolion y Parc Cenedlaethol ar ei wefan. Mae'r data ar gyfer y boblogaeth amcangyfrifedig o 25,702 wedi cael ei rannu i amrywiol gategoriâu gan gynnwys proffiliau wardiau, gweithgaredd economaidd, statws tai, statws teuluol a sgiliau iaith Gymraeg. Mae data'r cyfrifiad yn darparu darlun o fywyd o fewn cymunedau unigol yn y Parc yn ogystal â darparu gwybodaeth leol werthfawr. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi na fydd data'r cyfrifiad yn gallu darparu gwybodaeth ar bob nodwedd a ddiogelir.

### Gwybodaeth ac Ymglymiad

Bob blwyddyn treulir rhwng 6 a 10 miliwn o ddyddiau ymwelwyr yn Eryri. Mae arolwg ymwelwyr blynyddol yn cael ei gynnal drwy wefan yr awdurdod sy'n darparu gwybodaeth werthfawr, nid yn unig ar ba fath o bobl sy'n ymweld ag Eryri, ond am eu profiadau tra maen nhw yma.

Yn ogystal â'r wybodaeth hon, mae holiaduron lleol llai eu maint yn cael eu cwblhau gan wardeiniaid ac mae data ymwelwyr yn cael ei ddefnyddio o wahanol ffynonellau megis Visit Britain ac ati, er mwyn galluogi'r awdurdod i gael darlun ehangach o'r bobl sy'n ymweld â'r ardal.

Yn ogystal â chael gwybodaeth uniongyrchol drwy holiaduron ac arolygon, mae'r Awdurdod yn parhau i ymwneud yn rheolaidd ag ystod eang o randdeiliaid drwy Fforwm Cydraddoldeb yr Awdurdod, Grwpiau Mynediad y Gogledd a'r De, cynghorau tref a chymuned, asiantau cynllunio, gweithgareddau awyr agored a grwpiau hamdden, tîrfeddianwyr ac ati.

Mae ymgynghoriadau cyhoeddus penodol hefyd yn digwydd wrth ddatblygu strategaethau a pholisïau megis Canllawiau Cynllunio Atodol ac ati.

Wedi dadansoddi'r wybodaeth a oedd ar gael yn 2011 ynghyd â chynnal ymarferiad ymgynghorol mewn partneriaeth â phob un o'r 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd

Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Ambiwllans Cymru o dan faner gyfunol Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru, datblygwyd 6 o amcanion lefel uchel, a'r rhain fydd y 6 amcan mabwysiedig ar gyfer Gogledd Cymru.

I gyd-fynd â phob amcan mae cyfres o feysydd gweithredu. Mae'r meysydd gweithredu yn diffinio'r 6 amcan ac yn paratoi'r sylfaen i bob partner allu cynllunio ei gyfraniad tuag at gyflawni'r amcanion hynny.

Ar 7 Tachwedd 2013, cynhaliodd y Rhwydwaith Ddigwyddiad Ymgysylltu gyda Rhanddeiliaid Gogledd Cymru arall yng Nghanolfan Fusnes Conwy yng Nghyffordd Llandudno. Roedd nod y digwyddiad yn ddeublyg - adrodd ar y cynnydd a wnaed hyd yma o ran cyflawni'r amcanion, a chael adborth ynglŷn â sut y dylem symud ymlaen. Roedd 18 o sefydliadau wedi'u cynrychioli ar y diwrnod, a oedd yn cynnwys grwpiau cymunedol, sefydliadau gwirfoddol, grwpiau elusennol, sefydliadau addysgol ac ati, sy'n gweithio gyda neu'n cynnwys grwpiau amrywiol o bobl â nodweddion gwarchoddedig.

Cafwyd cyflwyniadau gan Aelodau'r Rhwydwaith a oedd yn tynnu sylw at amrywiol gamau gweithredu, prosiectau, cynlluniau a digwyddiadau a oedd wedi'u cyflawni o dan bob amcan, ynghyd â'r canlyniadau cadarnhaol yn sgil hynny. Cafodd hyn ei ddilyn gan drafodaethau wedi'u hwyluso o amgylch y bwrdd gyda mynychwyr yn cyflwyno sylwadau ac adborth ar y gwaith a gwblhawyd, meysydd ychwanegol sydd angen sylw a gwahanol gamau gweithredu a chynlluniau y dylid eu hystyried ar gyfer y dyfodol.

Ar ôl y digwyddiad, cyhoeddwyd adroddiad a gafodd ei ddisbarthu i bawb a oedd yn bresennol, ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan pob Aelod.

Mae gwaith mewn partneriaeth y Rhwydwaith wedi'i bennu fel arfer gorau yn y sector cydraddoldeb ehangach. Mae'r Rhwydwaith wedi'i ddal i fyny fel enghraifft o sut y gall awdurdodau cyhoeddus weithio gyda'i gilydd i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, tra eu bod o dan bwysau parhaus wrth ostwng cyllidebau'r sector cyhoeddus.

Ar 27 Ionawr 2015, yn ystod trafodaeth ynghylch Adroddiad Gweinidogion Cymru ar Gydraddoldeb 2014, roedd Lindsay Whittle, Aelod Cynulliad Plaid Cymru dros ranbarth Dwyrain De Cymru wedi tynnu sylw at y gwaith da a wnaed gan y Rhwydwaith.

Gan dynnu sylw at y ffaith bod y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn mynd ati'n weithredol i rannu arfer da ar draws y sector cyhoeddus, nododd ei fod yn ymwybodol o'r gwaith a wneir gan y Rhwydwaith, drwy ddatgan "bod nifer o awdurdodau cyhoeddus yng ngogledd Cymru, yn wir, yn cyfarfod er mwyn pennu amcanion cydraddoldeb ar y cyd ac i sicrhau eu bod yn gweithio mewn partneriaeth. Dyna ddylai'r sefyllfa fod ledled Cymru, ac mae angen i Lywodraeth Cymru fynnu bod hynny'n digwydd".

Mae nifer aelodau'r Rhwydwaith bellach wedi cynyddu i 14, gydag ychwanegiad Coleg Cambria a Chwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru.

### 3. Defnyddio'r Wybodaeth i gwrdd â'r Dyletswyddau Cyffredinol a'r rhai Penodol i Gymru

Er bod pob partner wedi ymrwymo i'r 6 amcan lefel uchaf, mae'r Rhwydwaith wedi cytuno y dylai pawb gael yr hyblygrwydd i ddewis cyfrannu tuag at y meysydd gweithredu sy'n faes blaenoriaeth iddynt hwy yn unig ac sy'n seiliedig ar y gwasanaeth a ddarperir ganddynt.

Y 6 Amcan Cydraddoldeb ar gyfer Gogledd Cymru a fabwysiadwyd yw:

1. Lleihau anghydraddoldebau mewn **lechyd**
2. Lleihau canlyniadau anghyfartal mewn **Addysg** er mwyn cyflawni potensial yr unigolyn
3. Lleihau anghydraddoldebau mewn **Cyflogaeth a Thâl**
4. Lleihau anghydraddoldebau mewn **Diogelwch** personol
5. Lleihau anghydraddoldebau o ran **Cynrychiolaeth a Llais**
6. Lleihau anghydraddoldebau o ran **Mynediad** at wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

Allan o'r 6 Amcanion Cydraddoldeb sydd wedi'u nodi uchod, mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu'r Amcanion Cydraddoldeb canlynol ynghyd â'r meysydd gweithredu sydd ynghlwm iddynt:

- A1. Lleihau anghydraddoldebau mewn **lechyd**

Man Gweithredu: Mae'r nifer o bobl sydd mewn grwpiau a dangynrychiolir sy'n dewis ffordd iachach o fyw yn cynyddu

- A3. Lleihau anghydraddoldebau mewn **Cyflogaeth a Thâl**

Man Gweithredu: Adnabyddir ac eir i'r afael ag anghydraddoldebau mewn recriwtio, dargadwad (cadw staff), hyfforddiant a phrosesau dyrchafu

Man Gweithredu: Bydd unrhyw fylchau mewn tâl rhwng nodweddion a ddiogelir yn cael eu hadnabod ac eir i'r afael â hwy

- A4. Lleihau anghydraddoldebau mewn **Diogelwch** personol

Man Gweithredu: Bydd adrodd ar droseddau casineb ac aflonyddwch yn cynyddu a bydd camau yn cael eu cymryd i leihau'r digwyddiadau o droseddau casineb ac aflonyddwch

A5. Lleihau anghydraddoldebau mewn **Cynrychiolaeth a Llais**

Man Gweithredu: Bydd cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yn dod yn fwy cynrychiadol o'r cymunedau a wasanaethir

A6. Lleihau anghydraddoldebau mewn **Mynediad** at wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

Man Gweithredu: Bydd mynediad at wybodaeth a chyfathrebu ynghyd â phrofiad y cwsmer yn gwella

Man Gweithredu: Bydd mynediad corfforol at wasanaethau, trafndiaeth, yr amgylchedd adeiledig a manau agored yn gwella

#### 4. Beth a Gyflawnwyd

Amcan Un: Lleihau anghydraddoldebau mewn **lechyd**

Man Gweithredu: Mae'r nifer o bobl sydd mewn grwpiau a dangynrychiolir sy'n dewis ffordd iachach o fyw yn cynyddu

Prosiect / Menter / Gweithred	Amserlen	Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu?	Nodweddion a Ddiogelir	Swyddog Arweiniol
Gwella mynediad a threfnu teithiau tywys ar gyfer pawb o bob gallu er mwyn helpu i integreiddio pobl o wahanol gefndiroedd a gyda gwahanol nodweddion a ddiogelir, gyda'r nod cyffredin o roi cymorth i bobl i ddewis ffordd iachach o fyw.	Mawrth 2013 – Mawrth 2016	Mae'r dystiolaeth yn awgrymu po fwyaf o waith integreiddio sy'n digwydd, po fwyaf o rwystrau sy'n cael eu goresgyn a phobl yn fwy tebygol o dderbyn ei gilydd. Bydd pobl hŷn a phobl o gefndiroedd difreintiedig yn enwedig yn gallu cael eu hannog i fanteisio ar gefn gwlad i gael buddion iechyd rhad ac am ddim trwy well mynediad.	Pawb	Pennaeth Wardeinio a Mynediad

## **Adroddiad Cynnydd:**

### Hafal

Yn ystod yr Haf trefnwyd cwrs Eco Therapi 8 wythnos ar gyfer Hafal ym Mhlas Tan y Bwlch. Ariannwyd y prosiect gan yr Awdurdod - yn bennaf drwy gronfa CAE. Roedd y sesiynau diwrnod o hyd, gyda'r therapyddion Jill Turner ac Ambra Burls, yn cynnwys therapi celf, qigong (symudiadau therapiwtig) ac eco therapi. Roedd yna hefyd gyfleoedd cadwraeth garddio gyda Chris Marshall, y prif arddwr. Roedd yr adborth yn dda iawn gyda phob un o'r cyfranogwyr yn dweud eu bod wedi cael budd o'r cwrs.

Cynhaliwyd teithiau cerdded ar gyfer Hafal yn rheolaidd oddi ar hynny, ac mae'r Awdurdod wedi gwneud cyfraniad tuag at brynu setiau o ffyn cerdded ar gyfer y grŵp.

Trefnodd Homan Yousefi, un o Hwrwyddwyr Cymunedol prosiect Mosaic, gyfres o sesiynau ysgrifennu creadigol ac ymwybyddiaeth ofalgar yn y Parc Cenedlaethol gydag arian CAE. Roedd y grwpiau a oedd wedi elwa yn cynnwys Barnardos a BAWSO (elusen sy'n gweithio gyda chymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ac sy'n cynnig gwasanaethau generig ac arbenigol gan gynnwys darparu llety dros dro yng Nghymru i'r rhai sy'n dioddef cam-drin domestig a phob math o drais).

Parhawyd i gynnal teithiau cerdded misol ar gyfer pobl ddall a phobl â nam ar eu golwg. Mae Clwb Cerdded Eryri yn gwbl ddibynol ar wirfoddolwyr. Yn ystod mis Ebrill, roedd y Wardeiniaid Dewi Davies a Helen Pye wedi arwain yr aelodau mwyaf heini o'r grŵp i fyny'r Wyddfa. Daethant i lawr ar y trê.



**Amcan Tri:** Lleihau anghydraddoldebau mewn **Cyflogaeth a Thâl**

**Man Gweithredu:** Adnabyddir ac eir i'r afael ag anghydraddoldebau mewn recriwtio, dargadwad (cadw staff), hyfforddiant a phrosesau dyrchafu

<b>Prosiect / Menter / Gweithred</b>	<b>Amserlen</b>	<b>Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu?</b>	<b>Nodweddion a Ddiogelir</b>	<b>Swyddog Arweiniol</b>
Asesu'r gyfradd gyfredol o staff o fewn y gweithlu sy'n dod o grwpiau a dangynrychiolwyd, trwy ymgymryd ag arolwg staff cyfrinachol. Cynnal yr arolwg yn flynyddol i fonitro newidiadau ym mhroffil y gweithlu.	Mehefin 2013 ac wedyn yn flynyddol.	Bydd y data a gasglwyd yn hysbysu unrhyw newidiadau i'r Polisi Recriwtio yn y dyfodol, i alluogi aelodau o grwpiau a dangynrychiolir i ymgeisio a chael swyddi gyda'r Awdurdod.	Pawb	Pennaeth Personél
<b>Adroddiad Cynnydd:</b> Mae ein gweithlu wedi cael ei asesu ac mae gwybodaeth am ein cyflogaeth wedi cael ei adrodd yn Adran 6 o'r Adroddiad Blynyddol hwn.				

**Amcan Tri:** Lleihau anghydraddoldebau mewn **Cyflogaeth a Thâl**

**Man Gweithredu:** Bydd unrhyw fylchau mewn tâl rhwng nodweddion a ddiogelir yn cael eu hadnabod ac eir i'r afael â hwy

Prosiect / Menter / Gweithred	Amserlen	Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu?	Nodweddion a Ddiogelir	Swyddog Arweiniol
Asesu a monitro'r bwloch tâl rhyw yn flynyddol.	Mehefin 2013 ac wedyn yn flynyddol.	Bydd y data a gasglwyd yn hysbysu unrhyw newidiadau i'r Polisi Recriwtio yn y dyfodol.	Rhyw	Pennaeth Personél

**Adroddiad Cynnydd:**

Yn seiliedig ar gyfraddau canolrif fesul awr gosodwyd gwaelodlin gyda data ar gyfer 31.03.2012 fel y canlynol:

	Dynion	Merched	Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Dynion
Llawn Amser	£13.61	£12.77	£12.77	Dim	£0.84
Rhan Amser	£8.00	£8.00	£8.00	Dim	Dim
Holl Staff	£12.77	£8.72	£9.91	£1.19	£4.05

Mae'r data ar gyfer 31.03.2013 wedi'i ddangos isod:

	Dynion	Merched	Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Dynion
Llawn Amser	£13.61	£12.77	£13.61	£0.84	£0.84
Rhan Amser	£8.00	£8.00	£8.00	Dim	Dim
Holl Staff	£12.77	£8.72	£9.91	£1.19	£4.05

Mae'r data ar gyfer 31.03.2014 wedi'i ddangos isod:

	Dynion	Merched	Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Dynion
Llawn Amser	£13.76	£14.16	£13.76	Dim	Dim
Rhan Amser	£8.08	£8.08	£8.08	Dim	Dim
Holl Staff	£11.63	£8.81	£10.01	£0.20	£2.82

Mae'r data ar gyfer 31.03.2015 wedi'i ddangos isod:

	Dynion	Merched	Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Dynion
Llawn Amser	£13.19	£14.90	£14.06	Dim	Dim
Rhan Amser	£8.26	£8.26	£8.26	Dim	Dim
Holl Staff	£12.28	£9.00	£10.81	£1.81	£3.28

Pan fydd cyfraddau fesul awr canolrifol ar gyfer merched llawn a rhan amser yn cael eu cymharu â dynion llawn a rhan amser nid oes unrhyw fwlch. Wrth ystyried ffigurau'r Holl Staff, mae'r bwch rhwng merched a'r holl staff wedi cynyddu i £1.81 (y bwch mwyaf ers i'r waelodlin cael ei sefydlu). Mae'r bwch rhwng merched a dynion wedi cynyddu i £3.28, ond mae'n parhau i fod yn is na'r waelodlin.

Mae angen cymhwyso'r un cafeat ag o'r blaen, fel Awdurdod bach, gall newid bach yn nifer y staff ar wahanol lefelau effeithio ar y bwch.

**Amcan Pedwar:** Lleihau anghydraddoldebau mewn **Diogelwch** personol

**Man Gweithredu:** Bydd adrodd ar droseddau casineb ac aflonyddwch yn cynyddu a bydd camau yn cael eu cymryd i leihau'r digwyddiadau o droseddau casineb ac aflonyddwch

Prosiect / Menter / Gweithred	Amserlen	Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu?	Nodweddion a Ddiogelir	Swyddog Arweiniol
Gweithio mewn partneriaeth gydag Aelodau'r Rhwydwaith i godi ymwybyddiaeth	2014/15	Bydd codi ymwybyddiaeth yn cyfrannu at gynyddu'r adroddiadau	Pawb	Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

**Adroddiad Cynnydd:**

Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb 11 – 18 Hydref 2014

Gwaith mewn partneriaeth dan arweiniad Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau. Roedd £5,000 ar gael gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo'r Rhwydwaith i gynnal digwyddiadau a chreu cyhoedduswydd yn ystod yr wythnos.

Cytunwyd ar nifer o ddatganiadau i'r wasg a deunyddiau creu cyhoedduswydd ar gyfer y gwahanol sefydliadau dan sylw a oedd yn cynnwys ymgyrch ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol. Cafodd rhaglen radio ei recordio'n ddwyieithog a'i darlledu gan orsafoedd radio lleol yn ystod yr wythnos ymwybyddiaeth o droseddau casineb. Roedd yn tynnu sylw at beth yw troseddau casineb, eu heffaith ar gymunedau a'r pwysigrwydd o roi gwybod amdanynt a delio â hwy.

Cafodd poster ei ddylunio, ei argraffu a'i ddosbarthu ledled y rhanbarth mewn adeiladau cyhoeddus, swyddfeydd a chludiant cyhoeddus.

Sefydlodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddau wobwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth fel rhan o'i seremoni Gwobrau Cymunedol gyntaf erioed. Noddwyd y Wobwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth gan Lywodraeth Cymru er anrhydedd i'r Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb. Enillodd grŵp o bobl ag anawsterau dysgu y wobwr ar ôl dylunio poster ymwybyddiaeth o droseddau casineb anabledd a gafodd ei arddangos ar Fysus Arriva yng ngogledd Cymru.

Yn 2013/14, rhoddwyd gwybod i Heddlu Gogledd Cymru am 389 o droseddau casineb. Credir nad yw llawer o'r troseddau'n cael eu hadrodd a bod gwir nifer yr achosion yn llawer iawn uwch nag mae'r data a gofnodwyd yn ei awgrymu.

**Amcan Chwech:** Lleihau anghydraddoldebau mewn **Mynediad** at wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

**Man Gweithredu:** Bydd mynediad at wybodaeth a chyfathrebu ynghyd â phrofiad y cwsmer yn gwella

<b>Prosiect / Menter / Gweithred</b>	<b>Amserlen</b>	<b>Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu?</b>	<b>Nodweddion a Ddiogelir</b>	<b>Swyddog Arweiniol</b>
Cyflawni'r gweithrediadau a amlinellwyd yn y Strategaeth Hamdden ar ddarparu amrediad eang o gyfleoedd sydd â mynediad hawdd atynt.	Yn ystod oes y strategaeth (5 mlynedd)	Bydd mynediad at fannau agored a'r ddarpariaeth o gyfleusterau hamdden yn gwella.	Pawb	Pennaeth Wardeinio a Mynediad
<b>Adroddiad Cynnydd:</b> Cwblhawyd y gwaith o wella hygyrchedd i goedlan y Farchynys. Cwblhawyd y gwaith addasu (a chlirio) giatiau i wella hygyrchedd ar Lwybr Mawddach – cafodd y 12 corlan a oedd ar y llwybr hwn yn flaenorol ei leihau i 4 (sy'n hanfodol er mwyn rheoli stoc). Gwnaed gwaith i wella hygyrchedd ar ochr ddwyreiniol llwybr Llyn Trawsfynydd drwy gael gwared ar rwystrau hanesyddol mewn 4 lle. Cyn y gwaith hwn, roedd hi bron yn amhosibl i feiciau addasedig a chadeiriau olwyn gael mynediad.				
Ymgynghori ac ymgysylltu â Fforymau Mynediad y Gogledd a'r De a grwpiau mynediad perthnasol yn ystod gwedd datblygu unrhyw brosiectau llwybrau hygyrch.	Parhaus	Bydd hyn yn sicrhau bod materion hygyrchedd yn cael eu hystyried a'u hymgorffori o gyfnod dechreuol y prosiect.	Oed ac Anabledd	Pennaeth Wardeinio a Mynediad
<b>Adroddiad Cynnydd:</b> Ymgynghori cyson yn digwydd â'r Fforymau Mynediad.				

**Gwaith ychwanegol y mae'r Awdurdod am ymgymryd ag o er mwyn cyfrannu tuag at yr Amcanion cyffredinol**

(Yn seiliedig ar yr ymateb yn yr ymgynghoriad gyda grwpiau lleol)

<b>Prosiect / Menter / Gweithred</b>	<b>Amserlen</b>	<b>Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu?</b>	<b>Nodweddion a Ddiogelir</b>	<b>Swyddog Arweiniol</b>
Graddio llwybrau yn ôl hygrychedd - edrych ar yr ymarfer da a sefydlwyd gan brosiect CCGC ar hyn.	Mawrth 2013 – Mawrth 2016	Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i bobl ag anableddau corfforol wneud penderfyniadau gwybodus ar ba mor addas yw gwahanol lwybrau iddynt.	Oed ac Anabledd	Swyddog Mynediad / Swyddog Dehongli
<p><b>Adroddiad Cynnydd:</b> Gwaith ymchwilio cychwynnol wedi digwydd i edrych ar raddfeydd gwahanol, gan weld a oes modd ymgorffori dull 'Miles without Stiles' a ddefnyddir gan rai Parciau Cenedlaethol eraill. Mae'r prosiect hwn bellach yn cael blaenoriaeth yn rhaglen waith gorfforaethol 2015-16 fel rhan o'r gwaith a wneir i fodloni'r amcan gwella iechyd a lles.</p>				
Staff i ymgymryd â hyfforddiant cydraddoldeb	Rhagfyr 2013.	Bydd hyn yn gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff.	Pawb	Pennaeth Personél / Swyddog Cymunedol / Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer
<p><b>Adroddiad Cynnydd:</b> Mae aelodau o staff allweddol yn yr Awdurdod wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i wella eu dealltwriaeth o faterion cydraddoldeb.</p> <p><u>Cyrsiau a fynychwyd:</u> Cwrs Hyfforddiant Gwahaniaethu a Rhagfarn ar sail Oed – a gynhaliwyd gan y Swyddog ar gyfer Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar 18 Medi 2014.</p> <p>Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Caffael – a drefnwyd gan CLILC ar 24 Hydref 2014.</p> <p>Ar ben hynny, mae'r Swyddog Cymunedol wedi cymhwyso fel Hwylusydd ar ôl cwblhau Cwrs Hyfforddiant Hwyluswyr ar gyfer Ymgynghoriadau.</p>				

## 5. Asesiadau Effaith Cydraddoldeb

Mae gan yr Awdurdod systemau sefydledig i asesu effaith unrhyw strategaethau diwygiedig, cynlluniau, gweithdrefnau, arferion neu unrhyw benderfyniadau mawr y mae'n eu gwneud. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd 14 o sgriniadau effaith cydraddoldeb, ac o ganlyniad i hynny nid oedd unrhyw un ohonynt yn golygu bod angen cynnal asesiad effaith llawn.

Isod mae rhestr o'r holl sgriniadau asesu effaith a gynhaliwyd sy'n cynnwys crynodeb byr o'r materion a gafodd eu hystyried.

1. Amcan Gwella: Gweithredu'n Effeithiol â Llai o Adnoddau  
Yn dilyn adolygiad o Amcanion Gwella'r Awdurdod yn 2014, cafodd yr amcan newydd hwn ei fabwysiadu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf i ddelio â'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod. Ymgynghorwyd yn helaeth ar y Strategaeth Ariannol a fabwysiadwyd drwy ymgynghori â'r cyhoedd yn ogystal ag aelodau o staff a'r Undebau. Byddai cynigion unigol yn y strategaeth hefyd yn cael eu hasesu'n unigol o ran eu heffaith. Ni chododd unrhyw dystiolaeth yn ystod yr ymgynghoriad a oedd yn awgrymu y byddai'r strategaeth, o'i hystyried yn ei chyfanrwydd, yn cael effaith negyddol anghymesur ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchoddedig a bennwyd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
2. Amcan Gwella: Cymunedau  
Yn dilyn adolygiad o Amcanion Gwella'r Awdurdod yn 2014, pennwyd bod yr amcan hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth a chafodd ei gadw ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Adolygwyd yr asesiad effaith a gynhaliwyd yn 2011, a chanfuwyd bod y materion a bennwyd bryd hynny yn dal i fod yn berthnasol. Nodwyd bod gan yr amcan gwella hwn y potensial i gael effaith gadarnhaol ar rai grwpiau o bobl â nodweddion a ddiogelir.
3. Amcan Gwella: Perfformiad  
Yn dilyn adolygiad o Amcanion Gwella'r Awdurdod yn 2014, pennwyd bod yr amcan hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth a chafodd ei gadw ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Adolygwyd yr asesiad effaith a gynhaliwyd yn 2011, a chanfuwyd bod y materion a bennwyd bryd hynny yn dal i fod yn berthnasol. Nodwyd bod rheoli perfformiad da yn flaenoriaeth o gofio y byddai'r toriadau ariannol yn effeithio ar y gallu i ddarparu rhai gwasanaethau. Bydd rheoli perfformiad yn effeithiol yn chwarae rhan i gynorthwyo'r Awdurdod i 'wneud mwy gyda llai' yn y dyfodol.
4. Amcan Gwella: Gwasanaethau Electronig  
Yn dilyn adolygiad o Amcanion Gwella'r Awdurdod yn 2014, pennwyd bod yr amcan hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth a chafodd ei gadw ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Adolygwyd yr asesiad effaith a gynhaliwyd yn 2011, a chanfuwyd bod y materion a bennwyd bryd hynny yn dal i fod yn berthnasol. Fodd bynnag, nododd yr adolygiad bod angen gwyliadwriaeth i sicrhau nad yw'r gwasanaethau traddodiadol presennol yn cael eu disodli wrth ddatblygu gwasanaethau electronig, ond yn hytrach eu bod yn gweithio ochr yn ochr â hwy. Byddai angen cynnal asesiadau effaith ychwanegol ar unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol, i ddadansoddi a yw unrhyw grwpiau nodweddion

a ddiogelir yn llai tebygol o allu cael mynediad at wasanaethau electronig a chael eu heffeithio'n anghymesur gan unrhyw systemau newydd o ganlyniad.

5. Amcan Gwella: Polisi Cynllunio

Yn dilyn adolygiad o Amcanion Gwella'r Awdurdod yn 2014, pennwyd bod yr amcan hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth a chafodd ei gadw ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Adolygwyd yr asesiad effaith a gynhaliwyd yn 2011, a chanfuwyd bod y materion a bennwyd bryd hynny yn dal i fod yn berthnasol.

6. Datganiad Polisi Pwerau Disgresiwn a Pholisi Ymddeol, Ymddeoliad Cynnar ac Ymddeoliad Hyblyg Diwygiedig

Pwrpas y datganiad hwn a'r polisi cysylltiedig yw cyflwyno'r sefyllfa o ran y dewisiadau ymddeol ar gyfer staff. Ymgynghorwyd â chynrychiolwyr yr Undebau, y tîm rheoli ac aelodau o'r awdurdod. Byddai'n rhaid llunio achos busnes cadarn ar gyfer unrhyw geisiadau sy'n destun y pwerau dewisol. Ni phennwyd unrhyw effeithiau negyddol ar unrhyw grwpiau o nodweddion a ddiogelir.

7. Adolygiad o Drefniadau Maes Parcio'r Awdurdod: Sefydlu Maes Parcio Cae Llan fel maes parcio arhosiad byr o'r statws maes parcio di-dâl presennol

Y cynnig yw sefydlu Cae Llan fel maes parcio arhosiad byr i annog trosiant cyflym o geir i gynorthwyo pobl sy'n dymuno ymweld â Betws y Coed am gyfnod byr. Mae'r Cyngor Cymuned a masnachwyr lleol wedi codi'r mater hwn ers rhai blynnyddoedd. Mae Stad Ancaster (perchnogion y tir) yn cytuno ac yn fodlon newid amodau'r brydles i ddarparu ar gyfer y newid. Ymgynghorwyd ymhellach â'r Cyngor Cymuned a'r rhanddeiliaid. Ni fyddai'r cynnig yn effeithio ar ddeiliaid Bathodynau Glas, oherwydd byddant yn parhau i barcio yn rhad ac am ddim. Ni phennwyd unrhyw effeithiau negyddol ar unrhyw grwpiau o nodweddion a ddiogelir.

8. Adolygiad o Drefniadau Maes Parcio'r Awdurdod: Cynyddu cost y drwydded barcio flynyddol

Y cynnig yw cynyddu cost y drwydded barcio flynyddol o £70 i £100 (ac eithrio Cae Llan), a chyflwyno trwydded barcio flynyddol newydd ar gyfer Pen y Pass am £250 ar gyfer ceir a £500 ar gyfer cerbydau â 7 neu fwy o seddi. Daw'r cynnydd â chost y drwydded flynyddol i'r un lefel â chostau trwydded barcio flynyddol Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae cynnydd Pen y Pass yn adlewyrchu'r tâl parcio uwch presennol ar gyfer y safle hwn ynghyd â'r galw mawr ar y cyfleusterau. Ni fyddai'r cynnig yn effeithio ar ddeiliaid Bathodynau Glas, oherwydd byddant yn parhau i barcio yn rhad ac am ddim. Ni phennwyd unrhyw effeithiau negyddol ar unrhyw grwpiau o nodweddion a ddiogelir.

9. Adolygiad o Drefniadau Maes Parcio'r Awdurdod: Rhoi'r gorau i gynnig trwyddedau yn rhad ac am ddim i drigolion lleol gael defnyddio meysydd parcio Morfa Dyffryn, Beddgelert a Llyn Tegid.

Gall cyflwyno trwydded flynyddol o £100 gael effaith ar bobl ag incwm is, ond ni fydd yn cael effaith anghymesur ar unrhyw grŵp o nodweddion a ddiogelir penodol. Bydd y polisi yn decach ar y cyfan ar gyfer holl drigolion y Parc Cenedlaethol, gan fod y polisi gwahanol presennol yn creu triniaeth

anghyfartal ac yn gwahaniaethu rhwng gwahanol gymunedau yn y Parc gan nad yw trwyddedau parcio di-dâl ar gael ym mhob maes parcio. Ni fyddai'r cynnig yn effeithio ar ddeiliaid Bathodynau Glas, oherwydd byddant yn parhau i barcio yn rhad ac am ddim.

10. Amcan Gwella Newydd: Cyfathrebu  
Dechreuodd gwaith ym mis Hydref 2014 i ddatblygu amcanion gwella newydd ar gyfer yr Awdurdod dros y blynyddoedd nesaf. Bu'r staff a'r aelodau yn ymwneud â'r broses o'r cychwyn cyntaf a chomisiynwyd hwylusydd allanol i ymgynghori â'r rhanddeiliaid. Bydd yr amcan gwella hwn yn cael effaith gadarnhaol ar y cyhoedd (trigolion ac ymwelwyr) a'n rhanddeiliaid. Ni phennwyd unrhyw effeithiau negyddol ar unrhyw grwpiau o nodweddion a ddiogelir.
11. Amcan Gwella Newydd: Cynlluniau a Pholisïau  
Bydd yr amcan gwella hwn yn cael effaith gadarnhaol ar y cyhoedd (trigolion ac ymwelwyr) a'n rhanddeiliaid am ei fod yn golygu ymgysylltu â phartneriaid a rhoi'r Cynllun Rheolaeth ar waith dros y blynyddoedd nesaf. Ni phennwyd unrhyw effeithiau negyddol ar unrhyw grwpiau o nodweddion a ddiogelir. Potensial am effeithiau cadarnhaol ar grwpiau penodol â nodweddion a ddiogelir.
12. Amcan Gwella Newydd: Iechyd a Lles  
Bydd yr amcan gwella hwn yn cael effaith gadarnhaol ar y cyhoedd (trigolion ac ymwelwyr) am ei fod yn golygu hyrwyddo ffyrdd iach o fyw drwy ddefnyddio'r awyr agored. Ni phennwyd unrhyw effeithiau negyddol ar unrhyw grwpiau o nodweddion a ddiogelir. Potensial am effeithiau cadarnhaol ar grwpiau penodol â nodweddion a ddiogelir.
13. Amcan Gwella Newydd: Ymgysylltu â Phartneriaid a Gwirfoddolwyr  
Bydd yr amcan gwella hwn yn cael effaith gadarnhaol ar drigolion yn bennaf, am ei fod yn golygu hyrwyddo a datblygu cyfleoedd i wirfoddoli a all wella dealltwriaeth pobl o'r Parc Cenedlaethol a'r Awdurdod, datblygu sgiliau newydd a chyfrannu at gynnwys cymunedau. Ni phennwyd unrhyw effeithiau negyddol ar unrhyw grwpiau o nodweddion a ddiogelir. Potensial am effeithiau cadarnhaol ar grwpiau penodol â nodweddion a ddiogelir.
14. Amcan Gwella Newydd: Yr Her Ariannol a Rheoli Perfformiad  
Bydd rhoi'r Strategaeth Ariannol gyfredol ar waith a pharatoi un newydd ar gyfer y blynyddoedd nesaf yn effeithio ar staff a'r cyhoedd yn ehangach sy'n defnyddio'r gwasanaethau a all gael eu newid, eu lleihau neu eu diddymu. Yn sgil difrifoldeb y toriadau i'r gyllideb hyd yma yn ogystal â thoriadau tebygol y dyfodol, bydd y strategaeth ariannol yn heriol i bawb. Caiff polisïau unigol yn y strategaeth ar gyfer toriadau a newidiadau mewn meysydd gwasanaeth, ffrydiau gwaith ac ati eu hasesu'n unigol, gydag asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar wahân yn rhan o'r broses yn ogystal ag ymgynghoriad llawn â'r rhai dan sylw.



## 6. Gwybodaeth Cyflogaeth

Mae'r ddyletswydd yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol am gyflogaeth:

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y:

- Bobl a gyflogir gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn yn ôl nodwedd a ddiogelir
- Gwrywod a menywod a gyflogir, yn ôl:
  - Swydd
  - Graddfa (lle bo systemau graddio mewn lle)
  - Tâl
  - Math o contract (gan gynnwys contractau parhaol a thymor penodol)
  - Patrymau gwaith (gan gynnwys amser llawn, rhan amser a phatrymau gwaith hyblyg eraill)
- Pobl sydd wedi ymgeisio am swyddi gyda'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf
- Gweithwyr sydd wedi ymgeisio i newid swydd o fewn yr Awdurdod, gan nodi sawl un a fu'n llwyddiannus â'u cais a sawl un a oedd wedi methu
- Gweithwyr sydd wedi ymgeisio am hyfforddiant a sawl un a oedd wedi llwyddo â'u cais
- Gweithwyr a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant
- Gweithwyr a fu'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno, un ai fel achwynydd neu fel un y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn ef / hi
- Gweithwyr a fu'n destun gweithdrefnau disgyblu
- Gweithwyr sydd wedi gadael eu swyddi â'r Awdurdod

Rhaid cyflwyno'r holl wybodaeth uchod ar gyfer pob un o'r grwpiau unigol a ddiogelir. Yr eithriad i'r gofyniad hwn yw'r data am swyddi, graddfa, tâl, math o contract a phatrwm gwaith - dim ond ei ddadansoddi mewn perthynas â benywod a gwrywod yn unig sydd ei angen bryd hynny.

### **Pobl a gyflogir gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn yn ôl nodwedd a ddiogelir**

Cyfanswm y gweithwyr ar 31 Mawrth 2015 = 145

#### **Proffil oedran**

24 ac oddi tanodd	1
25 – 34	23
35 – 44	36
45 – 54	42
55 – 64	38
65 a throsodd	5

#### **Dosbarthiad Benywod / Gwrywod**

Benywod	64
Gwrywod	81

Mae 1% o'r staff wedi datgan eu bod yn anabl o dan delerau'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

Roedd 3 aelod o staff ar absenoldeb mamolaeth.

O fewn yr Awdurdod, mae'r staff sydd wedi datgan eu tarddiad ethnig yn disgyn o fewn y categori Gwyn Cymreig, ac nid oes unrhyw un ohonynt o'r prif grwpiau ethnig eraill (Cymysg, Asiaidd, Du neu Dsieineaidd).

Yn sgil y nifer isel o weithwyr, ni chyhoeddir yr wybodaeth yn fanylach er mwyn diogelu hunaniaeth yr unigolion.

Y gwrywod a'r menywod a gyflogir, yn ôl:

- Swydd
- Graddfa (lle bo systemau graddio mewn lle)
- Tâl
- Math o gontract (gan gynnwys contractau parhaol a thymor penodol)
- Patrwm gwaith (gan gynnwys amser llawn, rhan amser a phatrymau gwaith hyblyg eraill)

Mae'r tabl isod yn dangos dosbarthiad gwrywod a menywod a gyflogir yn ôl graddfa, patrwm gwaith a'r math o gontract (mae gan yr Awdurdod nifer o deitlau swydd gwahanol o fewn y graddfeydd):

		Patrwm Gwaith						Math o Gontract					
		Amser llawn		Rhan amser		Hyblyg		Parhaol		Dros Dro		Tymor Penodol	
Graddfa	Tâl/Awr	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G
1	£6.99			9	4			7		2	4		
2	£7.29			5	1			5	1				
3	£8.26		1	10	5			10	6				
4	£9.00	7	12	6	1			9	13	1			
5	£10.23	2	4	2			2	3	6			1	
6	£11.51	1	8					1	8				
7	£13.18	6	13			1		7	13		1		
8	£14.90	7	8			1	1	7	9			1	
9	£16.05	3	5		1	1	1	4	7		1		
10	£16.99	1	3			1		2	3				
11	£18.01	2	1	1				3	1				
12	£18.95	1	2			1		2	2				
13	£19.90	1	3					1	3				
Prif Swyddog - Cyfarwyddwr	£29.34		2						2				
Prif Swyddog - Prif Weithredwr	£38.76		1						1				

## **Pobl sydd wedi ymgeisio am swyddi gyda'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf**

Roedd 59 o ymgeiswyr wedi llenwi ffurflenni monitro.

### **Tarddiad Ethnig**

59	Gwyn
0	Cymysg
0	Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, Asiaidd Cymreig, Asiaidd Saesneg, Asiaidd Albanaidd
0	Du, Du Prydeinig, Du Saesneg, Du Albanaidd, Du Cymreig
0	Tsieineaidd, Tsieineaidd Prydeinig, Tsieineaidd Saesneg, Tsieineaidd Albanaidd, Tsieineaidd Cymreig neu Grŵp Ethnig Arall

### **Cenedl**

26	Gwryw
33	Benyw

### **Anabledd**

0 ymgeiswyr ag anabledd yr hoffent roi gwybod amdano

## **Gweithwyr sydd wedi ymgeisio i newid swydd o fewn yr Awdurdod, gan nodi sawl un a oedd yn llwyddiannus â'u cais a sawl un a oedd wedi methu**

	Ceisiadau	Penodiadau
Gwryw	11	6
Benyw	7	2
Cyfanswm	18	8

## **Gweithwyr sydd wedi ymgeisio am hyfforddiant a sawl un a oedd wedi llwyddo â'u cais**

### **Gweithwyr a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant**

Roedd ceisiadau a hyfforddiant a fynychwyd ar 50 achlysur gan fenywod a 80 gwaith gan wrywod (roedd rhai aelodau o staff wedi ymgeisio a bod yn bresennol ar fwy nag un achlysur.)

## **Gweithwyr a fu'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno, un ai fel achwynydd neu fel un y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn ef / hi**

Roedd 4 cwyn yn ystod y cyfnod hwn yn ymwneud â 5 gwryw a 1 benyw.

### **Gweithwyr a fu'n destun gweithdrefnau disgyblu**

Roedd 2 gweithiwr (gwryw) yn destun gweithdrefnau disgyblu

## **Gweithwyr sydd wedi gadael eu swyddi â'r Awdurdod**

Benyw	7
Gwryw	11
Cyfanswm	18